Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 17 Ionawr 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd W G Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Sefydliadau â Chynrychiolwyr**

| | |
|---|---|
| Alyx Baharie | CGGA |
| Kev Bogdan | Newid Cam |
| Pat Dunmore | Cyngor ar Bopeth |
| Arweinydd Sgwadron Phil C Flower | Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe |
| Steve Fry | Dirprwy Raglaw |
| Swyddog Gwarantedig Dosbarth 1 Rob Govier | HMS Cambria |
| Thomas Hall | Blesma |
| A Holland | |
| Anna Looker | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Rhia Molino | Forces Fitness |
| Julian North | Help for Heroes |
| Tom Sloane | Rygbi'r Gweilch |
| Steve Spill | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Yasmin Todd | Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol – Plant y Lluoedd Arfog (Gorllewin Cymru) |
| Neil Tomlin | Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol |
| Brian Ward | Gwasanaeth Carchardai |
| Kelly Walter | |
| Melvin Watts | Prosiect 'Boots on the Ground' |
| Julian Wilde-Davies | Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig |
| Victoria Williams | GIG Cyn-filwyr Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Bethan Dennedy | Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Spencer Martin | Cydlynydd Comisiynu'r Trydydd Sector a Chronfeydd Ymddiriedolaeth |
| Natalie McCombe | Cydlynydd Ardal Leol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Bin-Sufya, Rob Denman, Louise Fleet, David Griggs, Finola Pickwell, David Price Deer a Steve Sullivan

**122 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

**123 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

**124 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.**

Amlinellodd Bethan Dennedy y byddai cyfran newydd o gyllid y Lluoedd Arfog yn cael ei rhyddhau cyn bo hir, a dywedodd y byddai'n dosbarthu gwybodaeth a manylion yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnodd i aelodau'r panel a oedd unrhyw gynlluniau i goffáu 40 mlynedd ers Rhyfel Ynysoedd Falkland a hefyd Jiwbilî Platinwm y Frenhines.

Nododd Rob Govier fod nifer o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio ar gyfer y ddau ddigwyddiad coffa.

Nododd Steve Fry fod cynllunio ar gyfer y jiwbilî platinwm yn parhau gyda'r fenter Canopi Gwyrdd, a bod yr Arglwydd Raglaw yn ymwneud â llawer o ddigwyddiadau plannu coed a chynigion coelcerth y Jiwbilî. Gwahoddodd aelodau'r panel i gysylltu os oes angen manylion y naill gynllun neu'r llall arnynt.

Amlinellodd Phil Flower y gallai fod gwasanaeth eglwys a gorymdaith i'w trefnu, ond nid oedd y rhain wedi’u cadarnhau eto.

**125 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.**

Dywedodd y Capten Huw Williams fod y gwasanaeth yn parhau i gynorthwyo'r Gwasanaeth Iechyd yn ei weithrediadau dyddiol.

Gyda'r cyhoeddiad diweddar ar gyfyngiadau COVID, dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai'r uned yn symud yn ôl i hyfforddiant wyneb yn wyneb yn fuan, ac amlinellodd fod recriwtio’n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r uned oherwydd y lefel bresennol o swyddi gwag.

Cyfeiriodd at ddigwyddiad y Fyddin/Cyflogwr sydd ar y gweill, a gynhelir yn rhithwir erbyn hyn. Gallai ddosbarthu manylion i unrhyw bartïon â diddordeb pe bai angen.

Dywedodd nad oedd yn siŵr ar hyn o bryd o gynlluniau'r uned ar gyfer y Jiwbilî Platinwm, ond os oedd pobl am i'r uned gymryd rhan mewn digwyddiadau, dylent gysylltu cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

## 126 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Fforwm y Lluoedd Arfog

Amlinellodd Steve Spill, oherwydd effeithiau parhaus y pandemig a'i effeithiau/effaith ar yr awdurdod iechyd, nad oedd llawer iawn i'w adrodd ar wahân i'r ffaith y byddai cyfarfod nesaf Bwrdd Iechyd y Lluoedd Arfog yn cael ei gynnal ar 15 Chwefror.

Nododd fod y duedd ar i lawr ar gyfer nifer yr heintiau COVID ers y Flwyddyn Newydd i'w chroesawu.

Amlinellodd Victoria Williams ei bod wedi derbyn 49 o atgyfeiriadau i'w gwasanaeth yn ystod y chwarter diwethaf, yr oedd 45 ohonynt wedi dewis defnyddio'r gwasanaeth, a oedd yn rhagorol, a soniodd fod y rhestr aros am wasanaethau tua 7 wythnos.

Amlinellodd y byddai cyfarfod rhwydwaith iechyd yn cael ei gynnal ar 10 Mawrth ac y dylai unrhyw aelodau o'r panel a oedd am fynd iddo gysylltu â hi.

Mae'r hunanarchwiliad o wasanaethau’n parhau ac mae 88 o'r 112 o feysydd wedi'u harchwilio hyd yma.

Amlinellodd y bydd prawf rheoli ar hap yn dechrau'n fuan a fydd yn cymharu Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid (EMDR) wyneb yn wyneb â'r hyn a wneir ar-lein. Bydd y prosiect ymchwil yn parhau am 2 flynedd.

## 127 Cefnogi Disgyblion o Deuluoedd Gwasanaeth.

Dywedodd Yasmin Todd fod casgliad data SSCE Cymru (Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru) o bobl ifanc mewn ysgolion yn parhau. Yn Abertawe, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu system i fonitro niferoedd a nododd y dylai allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r panel am niferoedd yn y cyfarfod nesaf.

Amlinellodd fod 8.5k ar gael i gyflwyno sesiynau drwy Forces Fitness yn Abertawe, ac mae'r rhain yn cael eu trefnu a'u cynllunio ar eu cyfer ar hyn o bryd.

Amlinellodd fod cyrsiau llesiant Little Troopers hefyd yn cael eu paratoi ar hyn o bryd gyda'r bwriad o'u cyflwyno mewn ysgolion cynradd cyn gynted ag y bydd y pandemig yn caniatáu.

Bwriedir trefnu gweithgareddau 'mis y plentyn milwrol' ar gyfer mis Ebrill, gyda chystadlaethau posib a chyfleoedd cynyddu ymwybyddiaeth cyffredinol a dathliadau plant y lluoedd arfog mewn ysgolion.

Mae rhaglen llysgenhadon plant y lluoedd arfog hefyd yn cael ei hyrwyddo er mwyn i bobl ifanc gymryd rhan ac ymgysylltu ag SSCE a phlant eraill ledled Cymru a chynyddu ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu plant y lluoedd arfog ar draws y wlad.

Amlinellodd Tom Sloane fod y Gweilch yn ymgysylltu â hyd at 40 o ysgolion y tymor yn lleol a'i fod yn hapus i gynorthwyo a chefnogi mewn unrhyw ffordd y gallai gyda'r syniadau a amlinellir uchod.

**128 Forces Fitness.**

Rhoddodd Rhia Molino gyflwyniad byr ar yr hyn y mae ei sefydliad yn ei wneud ar hyn o bryd yn eu sesiynau gyda phlant y lluoedd arfog yn Abertawe.

Ar hyn o bryd maent yn cyflwyno sesiynau iechyd, lles a gweithgareddau i 34 o ysgolion yn Abertawe.

Maent hefyd yn cyflwyno sesiynau yn awr i 13 awdurdod arall a'r llynedd buont yn gweithio gyda 160 o ysgolion, gan gynnwys dros 6,000 o bobl ifanc mewn gweithgareddau.

**129 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.**

<u>Hwb i Gyn-filwyr Abertawe</u>

Darllenodd y Cadeirydd ddatganiad gan Phil Jones ynghylch sefydlu canolfan newydd i gyn-filwyr yn Abertawe. Mae diwrnod lansio'n cael ei drefnu yn St Helen's a bydd y manylion yn dilyn maes o law.

<u>Cyngor Abertawe</u>

Amlinellodd y Cadeirydd y cynlluniau presennol ar gyfer y Sioe Awyr dros benwythnos 2/3 Gorffennaf.

Nododd nad yw'r trefniadau ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog wedi'u cwblhau eto.

Amlinellodd Spencer Martin fod cronfa Cyn-filwyr Abertawe ar agor o hyd ar gyfer ceisiadau, gyda manylion llawn ar wefan y cyngor. Mae pedwar cais wedi'u cyflwyno hyd yma, a byddai ef a'r Cadeirydd yn eu harchwilio cyn bo hir.

Cyfeiriodd Natalie McCombe at gronfa newydd Cyngor Abertawe ar gyfer pobl dros 50 oed sef 'Gaeaf Llawn Lles' - er nad yw'r gronfa'n benodol i gyn-filwyr, gallai gynorthwyo grwpiau.

<u>Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol</u>

Cyfeiriodd Neil Tomlin at y lefel newydd ac estynedig o wasanaethau cymorth sydd ar gael gan ei sefydliad o ganlyniad i COVID, sy'n ymwneud â chymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc o oedran ysgol sy'n gysylltiedig â'r Awyrlu Brenhinol.

Byddai'r manylion llawn yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Nododd Anna Looker nad oedd y grŵp lleol wedi trefnu unrhyw beth eto i nodi 40 mlynedd ers rhyfel Ynysoedd Falkland, ond y byddai'n diweddaru'r grŵp maes o law. Amlinellodd fod y LlBF yn genedlaethol yn chwilio am gyn-filwyr rhyfel y Falkland i siarad â'r wasg a rhannu atgofion o'r gwrthdaro.

Cynhelir digwyddiad cenedlaethol yn y Goedardd  Genedlaethol yn Swydd Stafford.

Cyfeiriodd Phil Flower at y digwyddiadau posib sy'n cael eu trafod ar gyfer y Sioe Awyr/Diwrnod y Lluoedd Arfog gan gynnwys gorymdaith bosib a digwyddiad ger rotwnda Neuadd y Ddinas.

Er gwaethaf y pandemig, nododd fod y gwerthwyr pabïau yn Abertawe wedi gwneud gwaith rhagorol, ond roedd llai o arian wedi'i gasglu eleni o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd y pandemig.

Mae'r cynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer cyfnod coffa llawn, yn wahanol i'r blynyddoedd diwethaf oherwydd COVID.

Amlinellodd y bydd y Cadetiaid Awyr yn derbyn Rhyddid Gorseinon gan Gyngor Tref Gorseinon yn hwyrach yn y flwyddyn.

Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig

Rhoddodd Julian Wilde-Davies y diweddaraf i'r panel am nifer o raglenni sy'n mynd yn fyw dros yr wythnosau nesaf a ariennir gan wahanol ffynonellau, yn enwedig cynllun a fydd yn galluogi i 20 o gyfranogwyr gymryd rhan mewn rhaglen 12 wythnos a allai arwain at swyddi yn y gwasanaeth sifil ac un arall sy'n ceisio hyfforddi pobl i fynd i'r afael â'r diffyg mewn gweithwyr personél diogelwch yn lleol. Byddai'n dosbarthu manylion llawn yn dilyn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.44 pm

**Cadeirydd**